

Castell Dinas Brân



Castell Dinas Brân heddiw.

Yn edrych i lawr o'r uchelfannau ar Langollen, mae Castell Dinas Bran. Mae ar safle hanesyddol, lle'r oedd llawer o'r bryngaerau o Oes yr Haearn sydd yn Nyffryn Dyfrdwy. Ddwy fil o flynyddoedd ar ôl Oes yr Haearn, dewisodd Gruffydd ap Madog, oedd yn teyrnasu dros Bowys Fadog (gogledd Powys) rhwng tua 1236 a 1270, y safle am ei bod yn hawdd ei hamddiffyn ac yn codi ofn ar ei elynion.


Mae'n bosibl fod yna gastell pren hyd yn oed ynghynt ar y safle, efallai mor bell yn ôl â phan ddaeth y Normaniaid gyntaf i Gymru, ond does yna ddim tystiolaeth o hynny.

Yn ystod y 13^{eg} ganrif roedd yna ryfela parhaus rhwng Tywysogion Cymru a Brenhinoedd Lloegr, a ddaeth i ben gyda choncwest Edward 1. Pan arweiniodd y cadfridog o Sais, Henry de Lacy, Iarll Lincoln, ymgyrch yn erbyn Dinas Brân fis Mai 1277, cynheuodd y Cymry oedd yn amddiffyn y castell dân ynddo yn fwriadol rhag iddo ddisgyn i ddwylo'r Saeson.

Er y llosgwyd yr adeiladau pren y tu fewn i furiau'r castell yn ulw, roedd y tŵr a'r waliau cerrig yn dal yn gyfan.



*Castell Dinas Brân, fel y gallai fod wedi edrych.
Diolch i Wasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych.*



Llythyr oddi wrth Henry de Lacey at Edward I ynghylch Dinas Brân. Diolch i'r Archifau Cenedlaethol.

Mewn llythyr a anfonodd Harri at Edward I, dywedodd "mae'r gaer yn "dal yn gadarn ac yn gryf a dylid ei thrwsio a gosod garsiwn o Saeson ynddi. Does yna ddim castell cryfach yng Nghymru, nac yn Lloegr chwaith."

Wedi'i berswadio gan y cyngor brwdfrydig hwn cymerodd Edward berchnogaeth bersonol o Ddinas Brân. Atgyweiriodd ac ychwanegodd at y castell, gan osod Garsiwn yno hefyd.

Nid yw'n hysbys pa ran a chwaraeodd y castell yn y rhyfel Eingl-Gymreig a ffrwydrodd ym mis Mawrth 1282. Gwelodd y gwrthdaro hwn farwolaeth y Tywysog Llywellyn "The Last", difodiant Powys Fadog a Buddugoliaeth Seisnig Iwyr. Mae'n bosibl bod y castell ar ryw adeg wedi disgyn i ddwylo'r Cymry, ond erbyn Hydref 1282 roedd yn amlwg yn ôl o dan reolaeth Lloegr. Wedi trechu'r Cymry, cyflwynodd Edward y castell i'w gadfridog John de Warrene, Iarll Surrey. Fodd bynnag, gan benderfynu ei fod yn lleoliad rhy anhygyrch ac yn rhy anghysbell, gadawodd de Warrene Castell Dinas Brân ac aeth ymlaen i adeiladu a byw yng Nghastell Holt.




John de Warrene.

Ar drugaredd yr elfennau, adfeiliodd y castell dros y canrifoedd heb neb yn talu fawr o sylw iddo. Yn 1490 dywedodd John Leland: "*The castelle of Dinas Brane was never bigge thing, but sette al for strength as in a place half inaccessible for ennemyes. It is now al in ruine: and there in the rok side that the castelle stondith on bredith every yere an egle. And the egle doth sorely assaut hym that distroith the nest.*"



Mae map o ystadau Myddelton, a arolygwyd ym 1799, yn dangos y 74 erw o dir y Castell wedi'i nodi'n wyrdd, ac wedi'i uniaethu â'r llythyren F, sy'n dangos yn yr allwedd mai Tir Gwastraff oedd yr ardal hon. Mae'r mapiau degwm o tua 1840 hefyd yn nodi'r ardal fel Tir Cyffredin, sy'n golygu ei bod yn agored i bawb ei defnyddio. Fodd bynnag, roedd yn perthyn ar ryw adeg i Fyddeltons Castell y Waun.




Yr adfeilion castell yn 1800.



Cymerwyd y siop fach drosodd yn gynnar yn y 1900au gan Miss Elizabeth Roberts, a osododd hefyd gamera obscura i ddenu ymwelwyr i fanteisio ar olygfeydd y dyffryn cyfagos. Cludwyd cyflenwadau ar gyfer y siop i fyni'r bryn mewn panniers ar asyn.



Th Fodd bynnag, creodd cyflwyno'r rheilffordd i Llangollen yn ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg fewnlifiad o dwristiaid i'r dref. Daeth y castell, a'r ddringfa iddo, yn un o'r prif atyniadau.



Roedd asynnod yn arfer mynd ag ymwelwyr i fyni i'r Castell, wedi'u clymu y tu allan i Westy'r Hand.

Gan weld potensial, creodd y bobl leol fusnes bach trwy rentu asynnod i'r rhai a oedd yn cael eu brawychu gan y ddringfa serth. Yn y 1880au adeiladodd Mr Samuel Jones 'bwthyn bach' ar y brig a gwerthodd gyflenwadau ohono i ymwelwyr.



Mae Elizabeth Roberts, ar y chwith, o bosibl gyda neiaint a nithoedd, y tu allan i gaffi'r Castell (uchod) a Raymond Gale yn arwain yr asyn y tu allan i'r caffi (chwith).



Peggy Chubb a dynes arall yn mynd â chyflenwadau i fyny i'r siop mewn asyn.



Mae Peggy Chubb yn gwyllo ei chi yn rhannu diod gyda'r asyn ar y brig.

Roedd y camera obscura yn strwythur metel wythonglog, gyda lens cylchdroi yn ymwithio allan o'r brig, a oedd yn canolbwyntio llun o'r wlad o amgylch ar sgrin wyllo y tu mewn. Yn ei lyfr *An Illustrated History of Llangollen*, mae Gordon Sherratt yn adrodd hanes gwraig leol a gynigiodd, i swyno ei gwesteion, daith gerdded dyner i fyny Dinas Brân i fwynhau'r adloniant a ddarparwyd gan y camera obscura. Gan fod y diwrnod yn iawn, roedd yn sicr o fod yn olygfa glir o gwmpas. Rhy glir mewn gwirionedd! Er mawr syndod iddi, ac embaras ei gwesteion, dangosodd y camera lun o'i merch, yn gorwedd yn y grug gyda'r curad lleol. Mae'r siop wedi hen ddiflannu a chwythodd y camera obscura i ffwrdd mewn gwynt mawr yn y 1950au.



Cloddiwyd y ffynnon yng Nghastell Dinas Brân ym mis Mai 1970.



Gweithwyr ar ben Dinas Brân gyda cherbyd lindysyn yn 1970.

Ym 1970, gwnaed gwaith i atgyfnerthu rhywfaint o strwythur y Castell. Bryd hynny agorodd y gweithwyr y ffynnon ar y brig, yn ogystal ag adfer peth o'r gwaith carreg.

Cynhaliwyd yr ymchwiliad archeolegol cyntaf erioed yn Ninas Bran gan CPAT ym mis Awst 2021, pan gynhaliwyd pedair ffos brawf a gloddiwyd â llaw yn fewnol ym mhen dwyreiniol y porthdy deheuol, ac yn allanol yn ei ben gorllewinol a'i ochr ogleddol.

Ymwelwch <https://heneb.org.uk/project/castell-dinas-bran-llangollen-2/> am fanylion.

Ailymwelodd Heneb (yr enw newydd ar CPAT) â Chastell Dinas Brân ym mis Medi a mis Hydref 2025 a gwnaeth gloddiadau pellach i geisio datgelu mwy o fanylion nid yn unig am y Castell, ond hefyd y fryngaer o'r Oes Haearn.

Ymwelwch â thudalen Facebook Amgueddfa Llangollen am ffotograffau a'r dyddiadur cloddio yn:-

https://www.facebook.com/permalink.php?story_fbid=pfbid02tzQgsigVdrCsF8s8MkwRpL3oWoaJTU9GKm_dReLm975AAydXUwpsd2ZuE4TycUBNAI&id=100057657969751



Ar hyn o bryd mae Heneb yn dehongli'r canlyniadau a'r darganfyddiadau, ac mor debygol iawn, bydd angen ychwanegu mwy at yr hanes hwn!